## Prif Ofynion

Mae'n rhaid i weithredu i adfer natur fod wrth galon Llywodraeth newydd Cymru. Mae'r papur briffio hwn yn nodi gofynion allweddol Plantlife i bleidiau gwleidyddol eu cynnwys yn eu maniffestos ar gyfer etholiad 2026.

Mae'n rhaid i'r Llywodraeth nesaf flaenoriaethu gwireddu **targedau statudol newydd ar gyfer adfer natur** a **chreu cynllun gweithredu** i fodloni'r targedau.

Mae'r camau allweddol i gyflawni hyn yn cynnwys:

- **Atal difodiant rhywogaethau** trwy ddarparu arian aml flwyddyn i adfer rhywogaethau
- **Achub coedwigoedd glaw Cymru** trwy Strategaeth Coedwigoedd Glaw
- **Rhoi hwb i'r gwaith o greu dolydd** gan ffermwyr a chymunedau trwy lunio Strategaeth ar gyfer Glaswelltiroedd
- **Cefnogi ffermwyr i weithredu er lles natur a'r hinsawdd** â phecyn cymorth trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFC)
- **Rhoi diwedd ar werthu mawn garddwriaethol** trwy ddeddfu heb oedi pellach

## Creu Cynllun Gweithredu i Adfer Natur

Mae gosodtargedaustatudol yn allweddol i sicrhau gweithreduhirdymor i adfer natur. Mae'n rhaid trosi'r fframwaith targedau — sydd wedi'i nodi ym Mil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) — yn dargedau penodol mewn deddfwriaeth eilaidd wedi i'r Bil gael ei basio. Dylai hyn ddigwydd drwy ymgynghori â rhanddeiliaid.

Mae hefyd angen cynllun gweithredu â dull clir, fesul cam, er mwyn cyflawni'r targedau hyn i sicrhau bod yna weithredu strategol a phrydlon. Dylai hyn gael ei gefnogi gan fonitro parhaus ac adroddiadau cynnyddrheolaiddi'rSenedd.

## Atal Difodiant Rhywogaethau

Mae angen cyllid hirdymorer mwyn gwireddu targedau bioamrywiaeth i atal rhywogaethau rhag cael eu difodi ac i adfer toreithrwydd ac amrywiaeth bywyd gwyllt unigryw Cymru. Dylai cyllid aml-flwyddyn a dargedir at adfer rhywogaethau — yn ogystal ag at adfer cynefinoedd — gael ei ddarparu gan y Llywodraeth newyddfel blaenoriaeth.

## Achub Coedwigoedd Glaw Cymru

Maetirweddcoedwigoedd glaw tymherus Cymru, sy'n gartref i 20% o rywogaethau cennau a bryoffytau Prydain yn chwarae rhan hanfodol. Mae'n cynnal bioamrywiaeth, aer a dŵr glân, yn cronni carbon, ac yn sicrhau gwydnwch rhag newid hinsawdd, megis trwy leihau'r perygl o lifogydd yn digwydd. Fodd bynnag, mae'r cynefin hwn a'i rywogaethau yn wynebu llu o fygythiadau: pori amhriodol, rhywogaethau goresgynnol (yn enwedig *Rhododendron ponticum*), plannu conwydd, y newid yn yr hinsawdd, a llygredd aer.

Mae'n rhaid i Lywodraeth newydd Cymru ymrwymo i lunio a gweithredu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer coedwigoedd glaw i ddatrys y bygythiadau. Dylai gael ei wireddu mewn partneriaeth â thirfeddianwyr ac arbenigwyr rheoli coedwigoedd glaw. Dylai'r strategaeth hon fod yn rhan o ymrwymiad ehangach gan y Llywodraeth i adfer, gwarchod ac ehangu coedwigoedd glaw Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Plantlife International - yr Elusen Cadwraeth Planhigion Gwyllt yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant. Noddwr Ei Fawrhydi y Brenin Siarl III. Rhif Elusen Gofrestredig: Cymru a Lloegr (1059559), Yr Alban (SC038951). Rhif Cwmni Cofrestredig: Cymru a Lloegr (3166339). Mae Plantlife yn parchu eich preifatrwydd. Gallwch ddarllen mwy am sut a pham rydym yn defnyddio eich data personol yn plantlife.org.uk/privacy-notice

Plantlife Cymru

## Rhoi Hwb i’r gwaith o Greu Dolydd gan Ffermwyr a Chymunedau

Nid trysorau ecolegol yn unig mo dolydd a glaswelltiroedd eraill sy'n gyfoethog eu rhywogaethau — maent hefyd yn asedau amlswyddogaethol yn economi wledig Cymru. Ers canrifoedd, mae'r cynefinoedd hyn, sy'n mynd yn gynyddol brin, wedi bod wrth wraidd busnesau ffermio cynaliadwy sy'n cynhyrchu bwyd maethlon. Maent yn cyflawni nifer o swyddogaethau o ran mynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd. Maent yn atafaelu ac yn cronni carbon, gwarchod cymunedau trwy leihau llifogydd a llygredd dŵr ac aer, a gwella iechyd a llesiant. Ond eto, nid oes yna strategaeth na chynllun i wneud y mwyaf o'r buddion niferus hyn trwy reoli ac adfer glaswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau.

Mae mwy na 65% o dir Cymru yn laswelltir. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn cael ei reoli â mewnbynnau costus nad ydynt yn cynnig llawer o fuddion i natur na'r hinsawdd. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth alluogi ffermwyr a chymunedau lleol i ddyblu arwynebedd dolydd blodau gwyllt yng Nghymru. Yn fwy cyffredinol, gall Strategaeth ar gyfer Glaswelltiroedd ddatgloi gwerth economaidd hirdymor glaswelltiroedd, a helpu i gyflawni targedau statudol ar gyfer natur a'r hinsawdd.

## Cefnogi Ffermwyr i Weithredu er lles Natur a'r Hinsawdd

Mae dros 90% o dir Cymru yn cael ei ffermio; mae ffermwyr hefyd yn rheoli ardaloedd mawr o goetir a chynefinoedd eraill. Felly, mae Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFC) effeithiol, sydd wedi'i ariannu'n dda, yn allweddol er mwyn adfer bioamrywiaeth, mynd i'r afael â newid hinsawdd, a chefnogi bywoliaethau gwledig. Mae'n rhaid iddo gynnig pecyn cyfannol o ddewisiadau, cyfraddau talu, yn ogystal â chyngor a chymorth o'r radd flaenaf er mwyn annog ffermwyr i ymgysylltu â'r CFC mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Mae Haen Gyffredinol yr CFC, sy'n ei gwneud yn ofynnol i 10% o dir ffermydd gael ei reoli fel cynefinoedd, yn sail gadarn. Fodd bynnag, mae angen i'r gofyniad hwn fod yn ystyrlon a dylid ei wirio i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i gynnig buddion gwirioneddol. Mae angen i'r haenau Opsiynol a Chydweithredol gael eu datblygu'n gyflym â chyllideb warchodedig ddigonol, er mwyn cynnig buddion amgylcheddol sylweddol. Dull 'bwndelu', lle caiff ffermwyr eu harwain at setiau o gamau gweithredu cyflenwol ar draws y tair haen, a fyddai'n cynnig y canlyniadau gorau a'r gwerth gorau am arian. Wrth gyflwyno a datblygu'r CFC, mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i'r broses o ddatblygu gwasanaethau cyngor a chefnogaeth ar gyfer rheoli ac adfer cynefinoedd.

## Rhoi Diwedd ar Werthu Mawn

Er gwaetha'r ymrwymiadau gwleidyddol hirsefydlog i roi diwedd ar y fasnach ddinistriol hon, mae gwerthu a chyflenwi mawn ar gyfer garddwriaeth a garddio yn parhau i fod yn gyfreithlon. Mae camau gwirfoddol tuag at dyfu'n ddi-fawn wedi cael eu hoedi, ac mae angen deddfwriaeth i roi diwedd ar werthu mawn, gan gynnig sicrwydd busnes a dull pontio teg i'r sector garddwriaeth.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gydweithio â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill, i gytuno ar ddull deddfu ar gyfer y DU gyfan er mwyn rhoi diwedd ar werthu mawr erbyn 2030.

I gael rhagor o wybodaeth, neu i wneud ymholiadau, cysylltwch â:

Lesley Fletcher
Pennaeth Plantlife Cymru
lesley.fletcher@plantlife.org.uk plantlife.org.uk
Plantlife Cymru, Unit 1, Eco Parc Dyfi, Machynlleth SY20 8AX

## Headline Asks:

Action for nature's recovery must be at the heart of the new Welsh Government. This briefing sets out Plantlife's key asks to political parties in their 2026 election manifestos.

The next Government must prioritise delivery of **new statutory targets for nature recovery** and **set out a roadmap** for meeting the targets.
Key steps to achieve this include:

- **Stopping species extinction** through multi-year funding for species recovery
- **Saving Wales's rainforest** through a Rainforest Strategy
- **Boosting meadow-making** by farmers and communities via a Grassland Strategy
- **Supporting farmers to deliver for nature and climate** with a funded package of support via the Sustainable Farming Scheme (SFS)
- **Ending sales of horticultural peat** by legislating without further delay

## Setting out a Roadmap for Nature's Recovery

Setting statutory targets is key to securing long-term action for nature's recovery. The targets framework set out in the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Bill must be translated into specific targets in secondary legislation once the Bill is passed. This should happen through consultation with stakeholders.

Also needed is a roadmap with a clear step-by-step approach to achieving these targets to ensure that strategic and urgent action is taken. This should be supported by ongoing monitoring and regular progress reports to the Senedd.

## Stopping Species Extinction

Long-term funding is needed to meet biodiversity targets to prevent species extinction and restore abundance and diversity of Wales's unique wildlife. Targeted, multi-year funding for species recovery - in addition to broader habitat restoration - should be delivered by the new Government as a priority.

## Saving Wales's Rainforest

Home to 20% of Britain's lichen and bryophyte species, Wales's temperate rainforest landscape plays a vital role. It supports biodiversity, carbon storage, clean air and water, and provides climate change resilience such as flood risk reduction. However, this habitat and its species face numerous threats: inappropriate grazing, invasive species (in particular *Rhododendron ponticum*), planting with conifers as well as climate change and air pollution.

The new Welsh Government must commit to developing and implementing a comprehensive rainforest strategy to address threats to rainforest. This should be delivered in partnership with landowners and rainforest management experts. This strategy should be part of a wider commitment by Government to restore, protect and expand Wales's rainforests for future generations.

Plantlife International - The Wild Plant Conservation Charity is a charitable company limited by guarantee. Patron HM King Charles III. Registered Charity Number: England and Wales (1059559), Scotland (SC038951). Registered Company Number: England and Wales (3166339). Plantlife respects your privacy. You can read more about how and why we use your personal data at plantlife.org.uk/privacy-notice

## Boosting Meadow-making by Farmers and Communities

Meadows and other species-rich grasslands are not just ecological treasures – they are also multifunctional assets within Wales's rural economy. These increasingly rare habitats have, for centuries, been at the heart of sustainable farming businesses producing nutritious food. They are the ultimate multitaskers in tackling the nature and climate crises. Meadows sequester and store carbon, protect communities by reducing flooding and air and water pollution, and improve health and wellbeing. Yet there is no strategy or plan to maximise these multiple benefits by managing and restoring species-rich grassland.

Grasslands cover more than 65% of land in Wales, however the majority are managed with expensive inputs and provide few benefits for nature or climate. The Government must enable farmers and local communities to double the area of wildflower meadows in Wales. More broadly, a Grassland Strategy can help to unlock the long-term economic value of grasslands and help meet statutory climate and nature targets.

## Supporting Farmers to Deliver for Nature and Climate

Over 90% of Wales's land area is farmed; farmers also manage large areas of woodland and other habitats. An effective, well-funded Sustainable Farming Scheme (SFS) is therefore critical to restoring biodiversity, tackling climate change and supporting rural livelihoods. It must offer a holistic package of options, payment rates and high-quality advice and support to encourage farmers to engage with the SFS effectively and efficiently.

The SFS Universal layer, with the requirement to manage 10% of a farm's land as habitats, is a strong foundation. However, this requirement needs to be both meaningful and verified to ensure that public money is used to deliver tangible benefits. The Optional and Collaborative layers need to be developed at speed, with an adequate and protected budget, in order to deliver significant environmental benefits. A 'bundling' approach, where farmers are guided to sets of complementary actions across the three layers will provide the best outcomes and best value for money. Developing advice and support services for habitat management and restoration must be a high priority in the roll out and development of the SFS.

## Ending Peat Sales

Despite long-standing political commitments to end this destructive trade, the sale and supply of peat for horticulture and gardening is still legal. Voluntary steps towards peat-free growing have stalled and legislation is needed to end peat sales, providing the horticulture sector with business certainty and a just transition.

The new Welsh Government must work with the UK Government and other devolved administrations to agree a UK-wide approach to legislation to end peat sales by 2030.

For further information or queries please contact:


### Lesley Fletcher

Head of Plantlife Cymru
lesley.fletcher@plantlife.org.uk plantlife.org.uk
Plantlife Cymru, Unit 1, Eco Parc Dyfi, Machynlleth SY20 8AX